DEDDF YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL, TROSEDDU A PHLISMONA 2014

ADRAN 59

GORCHYMYN DIOGELU MANNAU CYHOEDDUS 2020

ARCÊD Y FARCHNAD, CASNEWYDD NP201FS

Mae CYNGOR DINAS CASNEWYDD, wrth arfer ei bwerau o dan Adran 59, 64 a 72 Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 ("y Ddeddf"), drwy hyn yn llunio'r Gorchymyn hwn, wedi ei fodloni â rheswm digonol fod gweithgareddau mewn man cyhoeddus, sef yn ardal Arcêd y Farchnad, Casnewydd, wedi cael neu'n debygol o gael effaith niweidiol ar ansawdd bywyd y rhai sy'n byw'n yr ardal leol a bod ystod o ymddygiad gwrthgymdeithasol ynghlwm â'r gweithgareddau hyn. Ymhellach, mae Cyngor Dinas Casnewydd yn credu bod effaith neu effaith debygol y gweithgareddau hyn yn barhaus, neu'n debygol o barhau, sy'n golygu bod y gweithgareddau'n afresymol ac yn cyfiawnhau'r cyfyngiad a osodir gan y Gorchymyn hwn:-

1. Bydd y Gorchymyn hwn yn dod i rym ar 16 Tachwedd 2023 ac yn parhau i fod mewn grym am gyfnod o 3 blynedd wedi hynny, oni bai y caiff ei ymestyn gan Orchmynion pellach o dan bwerau statudol y Cyngor.

2. Mae'r Gorchymyn hwn yn ymwneud â'r man cyhoeddus a amlinellir mewn coch ar y Cynllun sydd wedi'i atodi i'r Gorchymyn hwn ("yr Ardal Gyfyngedig").

3. Ac eithrio fel y darperir yn Erthyglau (6) a (7) isod, ni chaiff unrhyw berson ddefnyddio'r hawl tramwy cyhoeddus dros yr Ardal Gyfyngedig rhwng 20:00 a 07:00 o'r gloch, 7 diwrnod yr wythnos.

4. Bydd gatiau'n cael eu gosod ar ddau ben yr Ardal Gyfyngedig, a bydd y gatiau hyn yn cael eu hagor a'u cau yn unol ag Erthygl (3) uchod.

5. Bydd unrhyw berson sy'n defnyddio'r gatiau y cyfeirir atynt yn Erthygl (4) i gael mynediad i mewn neu allan o'r Ardal Gyfyngedig yn sicrhau bod y gatiau wedi cau ac yn cael eu cloi yn syth ar ôl eu defnyddio.

6. Ni fydd y cyfyngiad yn Erthygl (3) y Gorchymyn hwn yn gymwys i unrhyw berson sy'n berchen ar neu'n meddiannu mangre gyfagos neu ger llaw i'r Ardal Gyfyngedig.

7. Ni fydd y cyfyngiadau yn Erthyglau (3) a (3b) y Gorchymyn hwn yn berthnasol i unrhyw bersonél Heddlu, Ambiwlans neu Wasanaeth Tân sy'n gweithredu yn unol â phwerau neu ddyletswyddau statudol neu i unrhyw ymgymerwyr statudol, darparwr nwy, trydan, dŵr neu gyfathrebu y mae angen iddynt gael mynediad i'w cyfarpar sydd wedi'i leoli yn yr Ardal Gyfyngedig.

8. Y llwybr amgen i gerddwyr yw trwy'r Stryd Fawr a Market Street, Casnewydd fel y dangosir gan linell felen ar y Cynllun sydd ynghlwm wrth y Gorchymyn hwn.

9. Os byddwch yn torri'r gwaharddiad yn Erthygl (3) heb esgus rhesymol, gallech gael eich erlyn. Os ydych yn cael eich erlyn a'ch cael yn euog, uchafswm y gosb yw dirwy heb fod yn uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol (£1,00 ar hyn o bryd).

10. Os oes unrhyw berson sydd â buddiant yn dymuno cwestiynu dilysrwydd y Gorchymyn hwn ar y sail nad oedd gan y Cyngor unrhyw bŵer i'w wneud neu na chydymffurfiwyd ag unrhyw un o ofynion y Ddeddf o ran y Gorchymyn hwn, caiff wneud cais i'r Uchel Lys cyn pen chwe wythnos o'r dyddiad y llunir y Gorchymyn hwn.

Dyddiad: OCTOBER 2023

RHODDWYD SÊL GYFFREDIN CYNGOR DINAS CASNEWYDD YMA YM MHRESENOLDEB:

M. WALLBANK
ASSISTANT HEAD OF LEGAL

gerevzccs

Market Arcade Alternative
Market Arcade Public Spa

Llwybr Ffin Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus yr Arcêd

Cyngor Dinas Casnewydd

1,250

Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus Arcêd y Farchnad 2023

H) Hawlfraint y Goron (a chronfa ddata r•tsl 120231 os (1000242101

Key – Allwedd

____ Llwybr Amgen Arcêd y Farchnad

____ Ffin Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus Arcêd y Farchnad